Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llangollen

Capel Penllyn
Brook Street
Llangollen
LL20 8LS

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llangollen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llangollen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rebecca Tobin |
| Person â gofal | Rebecca Tobin |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17` |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Gwener 8.30 tan 14.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolwg cyntaf y gwasanaeth ers ail gofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/07/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd plant

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson ac effeithiol i blant ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau’n hyderus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau’n hyderus ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod amser canu a chyfarch, mae ychydig o blant yn dewis chwarae ar y llawr yn hytrach nag eistedd ar y mat. Maent yn sgwrsio’n hapus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus iawn ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi’n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd gyda threfniadau’r diwrnod. Er enghraifft, mae’r plant yn gwybod bod angen tacluso’r ardal chwarae tu allan cyn mynd mewn am snac.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio’n hapus tu allan, a disgwyl eu tro yn adeiladu tŵr blociau. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a’u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae bron pob plentyn yn gwrtais wrth ddewis eu bwyd amser byrbryd, ac yn gofyn am ganiatâd i ddechrau bwyta.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac maent yn chwilfrydig, er enghraifft, wrth chware budr tu allan, yn lluchio dŵr a sebon at ymarferwyr ac yn chwerthin yn hapus. Maent yn mwynhau symud o un gweithgaredd i’r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae’r plant wrth eu bodd yn chwarae yn y twba tywod yn creu hufen iâ allan o dywod a dŵr ac yn eu rhannu gydag ymarferwyr a phlant eraill.

Mae’r plant yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn, er enghraifft wrth roi siaced a het haul ymlaen heb gymorth, yn ogystal ac arllwys llaeth a dŵr o’r gasgen i’w cwpanau. Mae ‘helpwr heddiw’ yn gyfrifol am baratoi a thorri ffrwyth ar gyfer pawb. Mae bron bob plentyn yn defnyddio’r toiled yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau'n effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn datblygu dealltwriaeth gynnar o'r iaith Gymraeg drwy ganu caneuon a rhigymau cyfarwydd yn rheolaidd. Mae bron bob un yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac yn ymateb yn bositif i oedolion. Maent yn adnabod gweithdrefnau'r lleoliad yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gynorthwyo ymarferwyr yn ystod amser tacluso. Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llafar. Maent yn cynyddu eu geirfa yn briodol, a phan gânt y cyfle, maent yn ei defnyddio'n gywir mewn cyd-destunau perthnasol, er enghraifft wrth ddatgan ble yr hoffent chwarae neu sut maent yn teimlo. Mae nifer o'r plant yn dod o gartrefi di Gymraeg, felly ychydig o blant sy'n siarad Cymraeg yn ddigymell, neu'n cynnal sgyrsiau syml gyda oedolion neu ffrindiau. Mae mwyafrif y plant yn dechrau defnyddio arwyddion syml i gyfathrebu wrth ymateb i ymarferydd yn arwyddo â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau darllen cynnar yn dda. Maent yn dewis llyfrau o'u gwirfodd, yn troi tudalennau ac yn ymateb yn bositif pan mae ymarferydd yn darllen gyda nhw. Maent yn pwyntio at y lluniau ac yn siarad gyda diddordeb am y cynnwys. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol yn unol â'u cam datblygiad. Maent yn creu marciau yn llwyddiannus gan ddechrau sylweddoli bod gan ysgrifen bwrpas wrth gyfathrebu gyda darllenydd.

Mae llawer o blant yn cyfrif i 10 yn hyderus, gydag ychydig yn cyfri at 15. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol gymharol fel mawr, bach, hir a byr wrth greu siapau a chreaduriaid gyda chlai. Mae bron bob plentyn yn ymuno wrth ganu caneuon am ddyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn, ac yn mwynhau cyfri gyda'r ymarferwyr. Pan gant y cyfle, mae llawer yn defnyddio offer mathemategol yn ddi-gymell gan drafod siapau 2D, creu jig-sos, ac arbrofi gyda thafolau wrth chwarae. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymdrin â gwrthrychau mân yn fedrus, er enghraifft wrth addurno celf waith gyda chregyn neu chwarae gyda chlai gan rholio, tylino a'i siapio'n ofalus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol mawr yn llwyddiannus drwy ddringo'n fedrus ar ffrâm bren neu farchogaeth treiciau yn hyderus.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus ac yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Maent yn arbrofi gyda chreu marciau ar dabledi ac yn chware'n ddychmygus gyda ffonau, tiliau a microdon yn y caffi. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth chwarae offerynnau taro gyda rhythm bwrpasol neu wrth greu darnau o gelf i'w arddangos ar waliau'r lleoliad. Maent yn meddwl yn ofalus am sut i gwblhau eu gwaith celf er enghraifft wrth dywallt gliter gyda rheolaeth fanwl. Mae llawer o blant yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn datblygu medrau datrys problemau buddiol, er enghraifft wrth symud offer mawr o un

rhan o'r ardal allanol i'r llall a'u rhoi at ei gilydd yn ddychmygus. Mae bron bob un ohonynt yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu heriau ac yn dal ati i geisio gwblhau tasg.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol ac yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae ymarferwyr yn sicrhau amser chwarae tu allan yn dyddiol, beth bynnag y tywydd ac yn rhannu negeseuon diogelu gyda'r plant wrth iddynt ddringo y grisiau serth i'r stafell yn y llofft. Mae'r ymarferwyr n dilyn cynllun cenedlaethol cyn-ysgolion iach.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, neu'r  rhai sydd heb Gymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus iawn ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn eu gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn ymateb yn dda iddynt ar lafar neu'n ddi-eiriau. Mae ymarferwyr yn gyson wrth ganmol ymddygiad y plant, gan esbonio pam eu bod yn derbyn y ganmoliaeth. Er enghraifft, pan fo plentyn yn tacluso, mae'r neges yn glir pob tro ac maent yn diolch i'r plant am eu cydweithrediad. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. O ganlyniad, mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus, gan drafod cyfleoedd dysgu gyda'r plant pan yn briodol. Maent yn dilyn diddordebau a syniadau y plant pan yn cynllunio gweithgareddau. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos gyda rhieni pan mae plant newydd yn cychwyn, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol beth ydyw anghenion a dewisiadau unigol y plant. Mae prosesau effeithiol yn sicrhau fod ymarferwyr yn adnabod a chefnogi yr holl blant yn effeithiol gan gynnwys y plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion bron bob plentyn. Maent yn ystyried barn a diddordebau'r plant o ddifri ac yn bwydo rhain i'r cynllunio pan yn berthnasol. Mae'r ymarferwyr yn dechrau defnyddio'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol i gynllunio profiadau ar gyfer y plant. Maent yn dod yn fwy ymwybodol o agweddau pwysig o addysgeg ac mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant, a'r ffordd maent yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda i gynllunio profiadau diddorol i'r plant.

Mae gan yr holl ymarferwyr berthynas hyfryd â'r plant. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddatblygu eu medrau corfforol, digidol, creadigol a chymdeithasol yn llwyddiannus iawn gan ddod yn fwy ymwybodol o bryd i ymyrryd a phryd i adael i blant arwain eu chware eu hunain. Yn yr arfer orau, mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae'r plant yn effeithiol gan ddarparu cyfleoedd iddynt fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd. O ganlyniad, mae llawer yn dechrau datblygu'n archwilwyr hyderus ac yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi ardaloedd deniadol ac ysgogol oddi fewn i'r adeilad, ac er y cyfyngiadau ym maint a hygyrchedd yr ardal allanol, maent yn llwyddo i greu ardal ddiddorol sy'n hybu medrau plant yn bwrpasol. Maent yn sicrhau fod dewis o lyfrau ar gael mewn sawl ardal tu fewn a thu allan, er mwyn denu plant i eistedd a datblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. Er bod ymarferwyr yn treulio amser bob dydd yn canu yn Gymraeg gyda'r plant, nid ydynt yn manteisio yn ddigonol ar gyfleoedd i ehangu geirfa a chystrawennau plant mewn cyfnodau llai ffurfiol. O ganlyniad, prin yw defnydd plant o'r iaith Gymraeg wrth iddynt chwarae a siarad gyda'i ffrindiau a'r ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau ar gyfer creu gwaith celf ar gael yn barhaus sy'n annog y plant i ddatblygu eu medrau creadigol yn rheolaidd. Mae llawer o blant yn eu defnyddio i ymarfer creu marciau, i baentio ac i arlunio'n rheolaidd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau i hybu medrau modur mân y plant yn hygyrch iddynt, er enghraifft gydag conau plastig bach, tywod a llwyau yn sbardun i greu cynnyrch ar gyfer y parlwr hufen iâ. Mae ymarferwyr yn cymhwyso dealltwriaeth y plant o iaith fathemategol yn addas. Maent yn trafod cysyniadau fel mawr a bach neu hir a byr wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn rhifo wrth ganu gyda nhw. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn sicrhau digon o gyfleodd i blant ymarfer eu medrau rhifedd yn bwrpasol wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r ardal leol gan ymweld â mannau diddorol ac addysgol yn rheolaidd. Mae eu teithiau i barciau, coedwig, y gamlas a safle'r Eisteddfod Rhyngwladol yn sicrhau bod y plant yn adnabod eu cynefin yn dda ac yn dod i sylwi a rhyfeddu ar fyd natur.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn creu ethos gweithgar a chytûn drwy’r lleoliad gan addysgu’r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn hybu rheolau syml fel cymryd tro a rhannu yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb ac mae’r plant yn ymateb yn arbennig o dda pan fo angen tacluso neu baratoi ar gyfer mynd allan.

Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn dda drwy ddathlu traddodiadau a dathliadau arwyddocaol. Maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am brif ddathliadau diwylliannau eraill drwy ddathlu eu diwrnodau pwysig, rhannu storïau a gwneud gwaith celf yn gysylltiedig â’r achlysur.

Mae ymarferwyr yn cadw nodiadau defnyddiol am gynnydd plant ac yn trafod camau nesaf bob unigolyn yn bwrpasol. Maent yn dechrau nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau y plant ar gynlluniau pwrpasol, a maent yn adrodd am gynnydd y plant i’r rhieni yn rheolaidd.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel, a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio’r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg yn briodol. Mae ymarferwyr yn cwblhau cofnodion dyddiol o amseroedd cyrraedd a gadael plant ag oedolion, gan gynnwys ymwelwyr. Mae arweinwyr yn cynnal driliau tan rheolaidd ac maent yn cael eu cofnodi yn fanwl.

Mae’r amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae’r amgylchedd yn caniatáu i blant ddefnyddio’r toiledau a defnyddio’r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae trefniadau glanhau rheolaidd yneu lle, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau  risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae prif ystafell y lleoliad yn groesawgar a chyfeillgar, ac yn cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd dda o’r ystafell a’r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu cyffrous y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo profiadau dysgu’r plant trwy gynnig adnoddau go iawn sydd wedi eu storio ar lefel isel. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys gwaith y plant, a lluniau ohonynt yn eu chwarae o fewn y lleoliad ac yn y gymuned agos. Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau i’r adeilad gan gynnwys llawr newydd yn y brif ystafell. Yn ogystal, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio’r gofod chwarae yn yr awyr agored bob dydd.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae'r arweinydd yn darparu rhywfaint o adnoddau annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach ac mae adnoddau i hybu gwerthoedd aml-ddiwylliannol ymysg y plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n anelu at baratoi plant i fod yn unigolion hapus ac annibynnol mewn awyrgylch llawn gofal. Maent yn rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda holl rhanddeiliaid y lleoliad ac mae'n cael ei chyfleu'n amlwg yn y datganiad o ddiben. Mae'r holl ymarferwyr yn ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant yn eu gofal. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn ymwybodol o gryfderau'r lleoliad ac agweddau y gellir eu cryfhau. Maent yn gweithredu prosesau hunanwerthuso trylwyr ac effeithiol ac yn ystyried barn rhieni, swyddogion addysg yr awdurdod lleol a llais y plant. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus er mwyn ymateb i'w blaenoriaethau. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu gwariant yn synhwyrol gan ystyried anghenion y plant wrth wneud penderfyniadau. Maent yn creu ethos gadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mae arweinwyr yn llunio polisïau priodol, sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Maent yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod camau cadarn yn cael eu gweithredu ar gyfer cefnogi staff. Mae blaenoriaethau datblygiad arweinwyr yn cydblethu'n effeithiol gydag anghenion datblygiad y lleoliad.

Mae arweinwyr yn creu cysylltiadau cryf gydag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Maent yn meithrin cysylltiadau agos a buddiol gyda'r ysgolion lleol ac yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ymweld ac ymgyfarwyddo a'u dosbarth newydd cyn gadael y lleoliad. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r berthynas weithiol sydd ganddynt â swyddog addysg yr awdurdod lleol. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ystyried datblygiad y ddarpariaeth a'r effaith ar gynnydd y plant, yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae ganddynt berthynas waith ymarferol â swyddogion y mudiad ymbarél sy'n cydweithio â nhw. Mae hyn yn sicrhau amrediad o bolisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant perthnasol sy'n cynnal y ddarpariaeth yn effeithiol. Mae gan yr arweinydd ac ymarferwyr berthynas agos a chefnogol â rhieni a gofalwyr. Maent ar gael ar ddechrau a diwedd bob dydd wrth i rieni gasglu eu plant, ac yn trefnu cyfleoedd buddiol i'r rhieni ymweld â'r Cylch. Maent yn

cyfathrebu'n gyson â nhw er mwyn trafod lles a chynnydd eu plant, gyda'r dull ddigidol yn adnodd ddefnyddiol i rannu gwybodaeth gyfredol gyda nhw am gynnydd eu plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2025